# Pwyllgor Cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl

---

## 1. Cyfansoddiad

### Aelodau

Bydd y canlynol yn aelodau o Bwyllgor y Gangen:

- Y Dirprwy Is-Ganghellor â gofal am y Gymraeg
- Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol Cyfadran y Dyniaethau (Cymraeg)
- Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol Cyfadran y Gwyddorau (Cymraeg)
- Llywydd UMCA
- Un cynrychiolydd Darlithydd Cysylltiol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o bob adran academaidd sydd yn cynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynrychiolaeth o'r adrannau isod sydd yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg neu sydd yn cefnogi addysgu academaidd drwy'r Gymraeg;
    - Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg
    - Cyfathrebu
    - Cynllunio
    - Dysgu Cymraeg
    - Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd
    - Gwasanaethau Cymorth
    - Gwasanaethau Llyfrgell
    - Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth
    - Y Gofrestrfa
    - Adnoddau Dynol
    - Marchnata
    - Ysgrifennydd y Brifysgol

Bydd aelodau'r Gangen hefyd yn aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Gwahoddir cynrychiolydd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i bob cyfarfod.

### Cadeirydd

Etholir Cadeirydd i'r Gangen o blith yr aelodau am dymor o ddwy flynedd yn y lle cyntaf.

Bydd y Cadeirydd, yn rhinwedd ei swydd, yn cynrychioli'r Brifysgol ar Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bydd y Cadeirydd yn gweithredu am gyfnod o ddwy flynedd a gellir ail-ethol yr un person am gyfnod pellach o un flwyddyn.

**Is-gadeirydd**

Etholir Is-gadeirydd i'r Gangen o blith yr aelodau staff Gwasanaethau Proffesiynol. Bydd yr Is-gadeirydd yn gyfrifol am osod eitemau ar agenda Pwyllgor y Gangen sydd yn berthnasol i'r carfan yma o aelodau. Bydd yr Is-gadeirydd hefyd yn dirprwyo ar ran y Cadeirydd yn ôl yr angen.

Bydd yr is-gadeirydd yn gweithredu am gyfnod o ddwy flynedd yn y lle cyntaf.

**Ysgrifennydd**

Bydd Swyddog y Gangen yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r Pwyllgor.

## 2. Cyfarfodydd

2.1 Swyddog y Gangen fydd yn cynnull cyfarfodydd y Pwyllgor ac yn cadw cofnodion. Bydd yna 3 cyfarfod pwyllgor yn ystod pob blwyddyn academaidd ac 1 fforwm sydd yn agored i holl staff a myfyrwyr sydd yn aelodau o'r Gangen.

2.2 Gellir galw cyfarfod arbennig/brys o'r Gangen trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cadeirydd a'i gefnogi gan o leiaf 3 aelod o'r Gangen. Cynhelir cyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor o leiaf unwaith bob tymor.

2.3 Anfonir rhybudd o gyfarfod cyffredin ynghyd ag agenda a chofnodion y cyfarfod blaenorol i'r aelodau o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

2.4 Gellir cyflwyno adroddiadau er gwybodaeth na fydd yn cael eu trafod yn y cyfarfod oni gofynnir am drafodaeth arnynt gan yr aelodau. Yn ddelfrydol, gofynnir i aelodau roi gwybod i Swyddog y Gangen o leiaf dri diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod os ydynt yn dymuno trafod codi mater o dan 'Unrhyw fater arall'. Mewn achosion brys gellir codi materion yn y cyfarfod heb rybudd o flaen llaw.

2.5 Bydd perthynas agos rhwng Pwyllgor y Gangen a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Gall aelodau'r Gangen gyfeirio unrhyw faterion sydd angen eu cyflwyno i Fwrdd Academaidd y CCC drwy'r Cadeirydd. Bydd cynrychiolydd o'r
Coleg yn derbyn gwahoddiad i bob cyfarfod

2.6 Y cworwm angenrheidiol fydd deg aelod o'r Gangen, ynghyd â'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd.

2.7 Pleidleisir drwy godi dwylo ac eithrio os darperir fel arall, ond os llwydda cynigiad am bleidlais gudd fe bleidleisir trwy bleidlais gudd.

## 3. Cylch gorchwyl

**Trosolwg:**

Mae'r Gangen yn rhan allweddol o drefniadaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a threfniadaeth cyfrwng Cymraeg Prifysgol Aberystwyth, gan dynnu at ei gilydd aelodau o staff er mwyn trafod ac ystyried materion cyfrwng Cymraeg yn sefydliadol ac yn genedlaethol.

Mae Cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi'i lleoli yng Nghanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ac mae'n cael ei gweinyddu gan swyddogion a ariennir gan y Coleg ynghyd â swyddogion a gyflogir gan y Brifysgol. Mae'r gwaith dydd i ddydd yn cynnwys cyswllt cyson â swyddogion y Coleg, cefnogi staff academaidd gyda phrosiectau a ariennir gan y Coleg, adrodd am ddatblygiadau a monitro cynnydd prosiectau ac ysgoloriaethau'r Coleg, a chynghori myfyrwyr ar faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth academaidd drwy'r Gymraeg. Mae'r Gangen hefyd yn cynnwys aelodaeth ehangach o staff a myfyrwyr y Brifysgol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth Gymraeg, ac mae cyfarfodydd a gweithgareddau'n cael eu trefnu'n rheolaidd.

3.1 Bydd Pwyllgor y Gangen yn atebol i'r Senedd.

3.2 Bydd cofnodion y Pwyllgor ac unrhyw adroddiadau perthnasol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg. Bydd materion y Gangen yn eitem sefydlog ar agenda'r pwyllgor hwn.

3.3 Cynghori'r Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg wrth gynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y Brifysgol, a chynghori am gynlluniau datblygu'r adrannau academaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'r ymrwymiadau a wneir mewn cynlluniau pwnc a grantiau pynciol.

3.4 Cyfrannu at yr ymateb sefydliadol i ddogfennau ymgynghorol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a Medr.

3.5 Cynghori adrannau a'r Brifysgol ar geisiadau am gyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan gynnwys grantiau prosiect, ysgoloriaethau a darlithyddiaethau.

3.6 Derbyn adroddiadau a cynghori am weithgareddau marchnata cyfrwng Cymraeg y Brifysgol a chynnig ymateb iddynt.

3.7 Cynghori pwyllgorau a swyddogion y Brifysgol ynglŷn â materion ehangach yn ymwneud â'r Gymraeg.